Guto y ci a aeth ar goll

(gofal / caredigrwydd / ffyddlondeb)

Bob bore am saith byddai Guto'n cyfarth wrth y drws yn barod i fynd am dro gyda'i feistr. A bob nos am wyth o'r gloch yno byddai Guto'n cyfarth. Doedd dim angen cloc yn y tŷ. Yn y gaeaf, pan fyddai'n oer a thywyll byddai Cen yn ei chael hi'n anodd i fynd allan o'r tŷ ond pan ddeuai'r gwanwyn a'r haf byddai Cen wrth ei fodd yn crwydro'r llechweddau yng nghwmni Guto, y teriar du a gwyn. Roedd Cen erbyn hyn yn ei flwyddyn olaf yn yr ysgol uwchradd ac yn ei chael hi'n anodd i gael dau ben llinyn ynghyd – ceisio astudio ar gyfer yr arholiadau a rhoi sylw i Guto.

Un gyda'r nos a Cen wedi bod wrthi drwy'r dydd yn astudio ar gyfer yr arholiadau penderfynodd y noson honno fynd am dro hir. Roedd hi'n noson braf ynghanol mis Mai a'r byd ar ei orau. Carpedi glas o glychau'r gog ymhob man a'r adar yn canu yn y llwyni drain o gwmpas. Byddai Guto bob amser yn rhedeg filltiroedd o flaen Cen ond byddai bob amser yn dod yn ôl a chyfarth o gwmpas ei draed.

Ond doedd dim golwg o Guto yn unman. "Guto, tyrd yma rŵan!" gwaeddai Cen ond doedd dim golwg o Guto. Cerddodd Cen ymlaen dan weiddi a chwibanu bob yn ail. Yn y pellter gwelodd rywbeth gwyn yn symud. Rhedodd nerth ei draed a dyna lle roedd Guto'n tyrchu â'i draed blaen. Mae'n rhaid bod cwningen neu ryw greadur arall yn y twll. Ymhen ychydig funudau roedd Guto wedi tyrchu agoriad oedd yn ddigon mawr iddo fynd i mewn i berfeddion y twll. Arhosodd Cen i weld beth fyddai'n digwydd. Trodd yr eiliadau'n funudau a'r munudau'n oriau. Roedd bron i ddwy awr wedi mynd a dim golwg o Guto na dim sŵn cyfarth yn dod o'r twll. Anodd iawn oedd gadael y lle a Guto ar goll ond roedd hi'n dechrau tywyllu. Doedd dim amdani ond ceisio gwneud ei ffordd adref.

Aeth Cen yn syth i weld ei gyfaill ysgol. Soniodd wrtho am ddiflaniad Guto. Doedd dim amdani ond dychwelyd i'r llecyn efo rhawiau a cheibiau. Ar y ffordd fe aethon nhw i weld tri o ffrindiau eraill. A dyna lle roedd y pump ohonyn nhw'n tyrchu yng ngolau lanterni. Ar ôl bron i ddwy awr o geibio dyfal doedd dim siw na miw yn dod o'r twll.

"Beth am i mi ffonio'r RSPCA ben bore yfory?" meddai

Rhun. Cytunodd pawb. Ond yn anfoddog iawn y cerddodd Cen o'r llecyn y noson honno.

Chwarter wedi naw y bore canlynol roedd tri o ddynion yr RSPCA gydag offer pwrpasol yn tyrchu i mewn i grombil y ddaear. Roedd yr hogiau yn dal eu gwynt – Cen yn fwy na'r un ohonyn nhw. Yn sydyn dyma un ohonyn nhw'n galw.

"Dacw fo."

"Ymhle?"

"Yn swatio wrth ymyl y graig acw," meddai'r llall gan anelu golau ei fflach lamp.

"Edrych, mae o'n ysgwyd ei gynffon," meddai'r swyddog arall.

Er i Cen weiddi arno, doedd o ddim yn gallu symud.

"Mae'n rhaid i ni ddal i dyrchu," meddai un o'r swyddogion. Am bron i awr gyfan bu'r tri yn ymlafnio'n galed. O'r diwedd, a hithau'n nesu at amser cinio, dyma gael gafael ar Guto a'i drosglwyddo o law i law nes cyrraedd gweddill yr hogiau oedd yn disgwyl yn eiddgar. Roedd côt Guto'n frown ac roedd yn crynu. Pan ofynnodd Cen iddo, "Be oeddet ti'n wneud lawr yn fan'na?" dechreuodd Guto ysgwyd ei gynffon o ddifri.

Adnod: "O fy Nuw, gwared fi o law'r drygionus, o afael yr anghyfiawn a'r creulon." Salm 71:4

Gweddi: Helpa fi, O Dduw, i barchu a gofalu am bob math o anifeiliaid, hyd yn oed y rhai sy'n anghynnes. Amen.

Trafod:

- Beth fuasech chi wedi ei wneud petaech yn sgidiau Cen?
- Ydych chi'n gwybod yn union beth ydi gwaith y Gymdeithas er Atal Creulondeb i Anifeiliaid?